TUC Cymru

# Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru

1 Economi fodern â lefel uchel o sgiliau

2 Diwydiant, cymunedau ac ymladd dros weithwyr

3 Cydraddoldeb ac Urddas i bob gweithiwr

4 Gwasanaethau Cyhoeddus Modern

5 Datganoli a Fformiwla Barnet

# Cymru: Gwlad sy'n Gweithio

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru eiriol dros bobl sy'n gweithio – gan ymrwymo i wella hawliau gweithwyr, hyrwyddo gwaith teg, a sicrhau gweithleoedd diogel, cynhwysol, ac iach ar draws Cymru.**

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru barhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol ag undebau llafur i fwrw ymlaen â'r polisïau newydd a deinamig a amlinellir isod i adeiladu economi sydd â chyflogau da a lefel uchel o sgiliau gyda gwasanaethau cyhoeddus cryf ac ymatebol sy'n blaenoriaethu Gwaith Teg a chydraddoldeb.**

## Dyma'r prif bethau rydym yn galw amdanyn nhw gan Lywodraeth nesaf Cymru:

### 1. Economi fodern â lefel uchel o sgiliau

Mae llais undeb cryf mewn gweithleoedd a sgiliau gweithlu'r dyfodol yn cyfateb i economi gryfach lle mae gwaith yn talu.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru adeiladu ar lwyddiant Cronfa Ddysgu Undebau Cymru ac addysg undebau llafur TUC Cymru drwy ehangu a datblygu rhaglenni fel bod gweithwyr yn cael eu hyfforddi ac yn barod i ymateb i'r newidiadau technolegol a'r pontio i economi carbon isel sydd o'u blaenau.

### 2. Diwydiant, cymunedau ac ymladd dros weithwyr

Rhaid gweithio'n agos gydag undebau i sicrhau bod twf economaidd yn gwobrwyo gweithwyr â swyddi diogel sy'n talu'n dda. Rhaid i'r Strategaeth Ddiwydiannol Fodern gyflawni dros Gymru, gan gynnwys darparu swyddi da mewn gweithleoedd sy'n cydnabod undebau llafur. Rhaid i Strategaeth Ddiwydiannol Fodern greu a chynnal swyddi ar gyfer pob sector o gymdeithas,

gan gynnwys menywod, gweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a gweithwyr anabl.

Rhaid i arian cyhoeddus sy'n cael ei wario drwy gontractau adeiladu a grantiau busnes nodi mynediad at undebau llafur, cyflog da, a thelerau ac amodau. Rhaid buddsoddi mewn prosesau trawsnewid diwydiannol gwyrdd sy'n rhoi gweithwyr wrth galon y gwaith cynllunio a phontio.

Rhaid gwreiddio'r deallusrwydd artiffisial moesegol mewn gweithleoedd i sicrhau bod manteision deallusrwydd artiffisial yn cael eu gwireddu i weithwyr, gan gynnwys yr hawl i ailhyfforddi, strategaeth arloesi dan arweiniad gweithwyr, ac ystyried sut gall datblygiadau technolegol gefnogi cynlluniau, fel wythnos waith fyrrach. Dylid ystyried deddfwriaeth i warantu bod deallusrwydd artiffisial moesegol yn cael ei fabwysiadu mewn gweithleoedd yng Nghymru.

Dylid sefydlu Fforwm Creadigol a Diwylliant traws-sector sy'n dod ag undebau, sefydliadau diwylliannol a chyrff cyhoeddus at ei gilydd i sbarduno cyllid teg, cyflog teg ac amodau gwaith teg, tegwch i bob gweithiwr, gan gynnwys gweithwyr llawrydd. Dylai newyddiaduraeth er budd y cyhoedd yng Nghymru gael ei hystyried yn wasanaeth cyhoeddus a dylai gael ei hariannu gan arian cyhoeddus.

Mae TUC yn croesawu cyflwyno masnachfreinio bysiau. Rhaid i hyn sicrhau gwelliannau i gyflogau, telerau ac amodau gweithwyr, ac mae angen buddsoddiad pellach mewn trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

## 3. Cydraddoldeb ac Urddas i bob gweithiwr

Mae Cymru deg yn Gymru gyfartal. Mae gweithlu cynhwysol ac amrywiol yn sicrhau bod ffyniant yn cael ei rannu ym mhob cymuned, a rhaid diogelu cyllid a gwaith TUC Cymru ar Gydraddoldeb i helpu i gyflawni hyn.

Mae pob gweithiwr yn haeddu tegwch ac urddas. Er mwyn gwireddu hyn, rhaid cael y polisïau, y diwylliant, a'r cymorth cywir ar waith mewn gweithleoedd. Dylai cyrff cyhoeddus wreiddio polisïau cymorth gyda menopos, rhaid trin iechyd meddwl yr un mor ddifrifol ag iechyd corfforol mewn gweithleoedd, a rhaid i bolisïau ystyrlon ar aflonyddu rhywiol yn y gweithle fod ar gael. Dylai pob gweithiwr gael mynediad at raglen cymorth proffesiynol o safon drwy eu cyflogwr, a dylai camau gweithredu yn y gweithle leihau straen yn y gwaith. Dylid cryfhau hawliau siaradwyr Cymraeg yn y gweithle.  Dylai cyrff datganoledig yn y sector cyhoeddus wneud cyfraniad ystyrlon at ddileu'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd.

Mae gwaith teg yn rhan annatod o roi terfyn ar dlodi plant, ac mae TUC wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth nesaf Cymru ar yr agenda hon.

Mae TUC Cymru yn cefnogi cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n ceisio sicrhau bod Cymru'n Genedl Noddfa.

# 4. Gwasanaethau Cyhoeddus Modern

Dylid cydnabod a gwobrwyo gweithwyr ymroddedig yn y sector cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys ehangu Gwaith Teg i weithleoedd sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ar gontractau allanol.

Dylid darparu cyfleoedd hyfforddi i weithwyr y sector cyhoeddus. Dylid blaenoriaethu lefelau da o dâl ac amodau i weithwyr yn y sector cyhoeddus gan ddilyn amserlen i ganolbwyntio ar adfer cyflogau er mwyn mynd i'r afael â chyfyngu cyflogau yn y tymor go iawn a'r tymor hir.

Dylid cyfyngu ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar gontractau allanol a gwrthdroi'r sefyllfa yma – yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol i oedolion. Dylid tynnu'r holl elw o ofal. Ar ôl tynnu'r elw, gellir ailgyfeirio'r cyllid hwn i sicrhau bod gwaith gofal yn cael ei wobrwyo'n briodol a bod y sector yn denu'r gweithlu sydd ei angen ar gyfer y dyfodol.

Rhaid diogelu gwasanaethau cyhoeddus at y dyfodol drwy bartneriaeth gymdeithasol, cyflog teg, buddsoddi yn y gweithlu lleol, a chymorth urddasol i weithwyr sydd wedi'u dadleoli. Rhaid i hyn gynnwys cynllunio ar gyfer unrhyw darfu ar y gweithlu a datblygu strategaeth gwydnwch gweithlu.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gryfhau hawliau gweithwyr yng Nghymru a sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol wedi'i wreiddio'n briodol. Dylai hyn gynnwys ehangu partneriaeth gymdeithasol mewn ysgolion.

Dylai staff cymorth mewn ysgolion elwa o gael corff negodi i Gymru.

Dylid tynnu'r elw o ddarpariaeth asiantaeth athrawon cyflenwi.

# 5. Datganoli a Fformiwla Barnett

Dylid cael cynllun cynhwysfawr ar gyfer system cyfiawnder troseddol gwbl integredig a datganoledig i Gymru. Dylid ymgyrchu i ddisodli fformiwla Barnett â system gyllido sy'n seiliedig ar anghenion.

Mae TUC Cymru yn creu Cymru lle mae gan bawb lais drwy eu hundeb ac incwm gallan nhw adeiladu bywyd arno. Rydym ni'n credu bod gan bob gweithiwr hawl i fod yn ddiogel, ac i gael ei werthfawrogi a'i barchu.

Pan fydd gweithwyr yn gweithredu ar y cyd, mae gennym y grym i greu newid cadarnhaol mewn cymdeithas. Rydym ni'n dod â gweithwyr at ei gilydd drwy 48 undeb i frwydro dros swyddi gwell a gwlad sy'n fwy cyfartal a ffyniannus.

Contact:
e: cymru@tuc.org.uk t: 029 2034 7010
Published by:
TUC Cymru, 1 Cathedral Road, Cardiff CF11 9SD
www.tuc.org.uk/wales